Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw

Caneuon Ffydd: Rhif 547

Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
a'm prynodd â thaliad mor ddrud;
fe saif ar y ddaear, gwir yw,
yn niwedd holl oesoedd y byd:
er ised, er gwaeled fy ngwedd,
teyrnasu mae 'Mhrynwr a'm Brawd;
ac er fy malurio'n y bedd
ca'i weled ef allan o'm cnawd.

Wel, arno bo 'ngolwg bob dydd,
a'i daliad anfeidrol o werth;
gwir awdur, perffeithydd ein ffydd,
fe'm cynnal ar lwybrau blin serth:
fy enaid, ymestyn ymlaen,
na orffwys nes cyrraedd y tir,
y Ganaan dragwyddol ei chân,
y Saboth hyfrydol yn wir.

THOMAS JONES, 1756–1820

MYFYRDOD

Dyma emyn sydd wedi cynnig sicrwydd i gredinwyr ers dros ddwy ganrif bellach. Adleisio Job mae Thomas Jones yn ei bennill cyntaf ac mae'n gwau dwy adnod at ei gilydd yn un pennill, sef Job 19:25 a 26. Dyna'n wir yw cryfder llawer o'n hemynau, eu bod yn adleisio ac yn defnyddio ac yn gosod yng nghof pobl lawer o adnodau o'r Beibl.

Fe lefara Job yng nghanol ei wewyr, ac yntau wedi colli popeth oedd yn ei feddiant ac yn annwyl iddo. Eto, er gwaethaf y boen a'r dioddefaint, mae'n gwrthod melltithio Duw a rhoi'r gorau i gredu bod gan Dduw fwriad ar ei gyfer yng nghanol ei helynt ac nad drygioni na phechod ar ei ran ef sydd wedi tynnu'r digofaint hwn arno.

Digon gwantan fu iechyd Thomas Jones yntau ar hyd ei oes. Daliai afael yng ngobaith yr Efengyl ac yng ngobaith Job y câi 'weled ef eto yn fy nghnawd', yn ôl ei fersiwn ef ei hun o'r emyn cyn ei newid i 'allan o'm cnawd' gan olygyddion diweddarach. Ni rwystrodd ei iechyd gwael na'i lawdriniaethau ef rhag byw yn effeithiol ac yn llawn fel awdur, cyfieithydd a gweinidog.

Fe rwystrir llawer ym mhob oes rhag byw yn llawn oherwydd bod ofnau yn cysgodi eu bywydau, ac ofn marwolaeth yw'r mwyaf o'r cysgodion hynny. Mae awdur y Llythyr at yr Hebreaid yn mynd at graidd y mater pan sonia am Iesu yn 'rhyddhau'r rheini oll oedd, trwy ofn marwolaeth, wedi eu dal mewn caethiwed ar hyd eu hoes.' (Heb. 2:15). At bwy mae modd i ni fynd pan mae ein calonnau ofnus yn mynnu cael eu rhyddhau o'r ofnau hynny? Os awn ni at yr athronydd didduw fe gawn ni ateb tebyg i hwn: 'Dysgwch fod yn fodlon ar y blynyddoedd a gynigia'r bywyd hwn i chi, gan eich addysgu eich hunain bod hynny yn ddigon ar eich cyfer.' Does fawr o obaith i'w gael mewn geiriau gweigion o'r fath. Dyheuwn am sicrwydd y gallwn ni i gyd gydio ynddo, ac fe ddown ni o hyd iddo wrth inni agor yr Ysgrythurau a darllen geiriau'r hwn, trwy ei farwolaeth, a ddiddymodd afael marwolaeth arnom ac ofn marwolaeth ynom.

Myfyriwch ar eiriau Iesu ei hun: 'rwy'n dweud wrthych fod y sawl sy'n gwrando ar fy ngair i ac yn credu'r hwn a'm hanfonodd i yn meddu ar fywyd tragwyddol . . . y mae wedi croesi o farwolaeth i fywyd' (Ioan 5:24). Dyna galondid i'r un sydd yn ofni marwolaeth. Dyma gynhaliaeth Job a Thomas Jones: 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw.' Nid oes neb gwerth troi ato wrth inni feddwl am ateb i un o ofnau mwyaf dynolryw, neb ond Iesu.

GWEDDI

O Dad, rwy'n diolch iti am y gobaith hwn a gynhaliodd Job yn ei ddigofaint, ac am dy Fab sydd wedi diddymu marwolaeth ac ofn marwolaeth trwy ei daliad 'anfeidrol o werth', gan ein rhyddhau ninnau o bob caethiwed i fywyd tragwyddol. Rwy'n rhoi diolch a mawl i ti am hyn. Amen.